



## **Cwynion sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg**

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithredu [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 7\) 2018](#). Os byddwch yn yr amgylchiadau anffodus lle y byddwch yn dymuno gwneud cwyn ynghylch cydymffurfiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru â Safonau'r Gymraeg, gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg gan ddefnyddio'r manylion isod:

**Ffôn:** (029) 2010 4311

**E-bost:** [Cwynion.iechydcyhoedduscymru@wales.nhs.uk](mailto:Cwynion.iechydcyhoedduscymru@wales.nhs.uk)

**Post:** Rhiannon Beaumont-Wood  
Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr  
Proffesiynol Perthynol i Iechyd  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
Rhif 2 Capital Quarter  
Stryd Tyndall  
Caerdydd  
CF10 4BZ

## **Beth fyddwn ni'n ei wneud ar ôl i'ch cwyn ddod i law?**

Byddwn:

- yn cydnabod eich cwyn ynghylch y Gymraeg o fewn 2 ddiwrnod gwaith (heb gynnwys penwythnosau na gwyliau banc);
- ar yr un pryd, yn gofyn i chi a oes gennych anghenion arbennig y dylem fod yn ymwybodol ohonynt wrth ymdrin â'ch pryderon (e.e. a ydych am gael ymateb a / neu gyfarfod yn Gymraeg neu yn Saesneg);
- yn ymchwilio i'ch cwyn yn unol â Safonau'r Gymraeg;
- fel rhan o'r ymchwiliad, yn penderfynu gyda chi a oes angen cyngor arbenigol arnom neu gyngor annibynnol arall i gynorthwyo i ddatrys eich cwyn;
- yn eich hysbysu ynghylch yr hyn rydym wedi'i ganfod a'r hyn y byddwn yn ei wneud yn ei gylch;
- yn y rhan fwyaf o achosion, byddwn yn anfon ateb terfynol atoch o fewn 30 diwrnod gwaith o'r dyddiad y daeth y gŵyn i law (heb gynnwys penwythnosau na gwyliau banc). Os na allwn anfon ateb atoch yn yr amser hwnnw, byddwn yn rhoi rhesymau i chi pam na wnaed hynny ac yn eich hysbysu ynghylch pryd y gallwch ddisgwyl derbyn ateb.

## **Pwy fydd fy mhwynt cyswllt at ddibenion fy nghwyn?**

Bydd Swyddog Cwynion yn yr adran y mae eich cwyn yn gysylltiedig â hi yn cael ei neilltuo i ymdrin â'ch cwyn.

Fodd bynnag, ar unrhyw adeg yn ystod y broses gwyno, os hoffech gysylltu â Swyddog Iaith Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru, gwnewch hynny gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod;

**Swyddog Iaith Gymraeg:** Caren Jones

**Ffôn:** 01352 803225

**E-bost:** [caren.jones@wales.nhs.uk](mailto:caren.jones@wales.nhs.uk)

### **Beth ddylwn i ei wneud os byddaf yn parhau i fod yn anhapus â'm cwyn ynghylch y Gymraeg?**

Os ydym wedi ystyried eich cwyn ac os ydych yn parhau i fod yn anhapus â'n hymateb, gallwch gysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod;

**Ffôn:** 0345 6033 221

**E-bost:** [post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)

**Post:** Mr Aled Roberts  
Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd  
CF10 1AT